OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2574

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

## RHAN 5

GWEITHGAREDDAU PERSONAU A GOFRESTRIR O DAN RAN 2 O'R MESUR

### Cwynion

**32.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a dilyn gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ystyried cwynion ("y weithdrefn gwynion") a fynegir wrth y person cofrestredig gan blant perthnasol neu ar eu rhan.

(2) Rhaid i'r weithdrefn gwynion fod yn addas ar gyfer anghenion plant.

(3) Rhaid i'r weithdrefn gwynion gynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried cwynion ynghylch y person cofrestredig.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y personau canlynol yn gwybod am fodolaeth y weithdrefn gwynion, a chymryd pob cam rhesymol i roi copi o'r weithdrefn gwynion mewn fformat priodol, neu ba bynnag fformat y gofynnir amdano, i'r canlynol—

(a) plant perthnasol;

(b) eu rhieni; ac

(c) awdurdod lleol sy'n trefnu ar gyfer gwarchod neu ddarparu gofal dydd i blentyn perthnasol.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff a gyflogir i ofalu am blant perthnasol yn cael gwybod am y weithdrefn gwynion, yn cael copi ohoni ac yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer ei gweithredu.

(6) Rhaid i'r weithdrefn gwynion gynnwys—

(a) enw, cyfeiriad a rhif teleffon y swyddfa briodol; a

(b) manylion y weithdrefn (os oes un) yr hysbyswyd y person cofrestredig ohoni gan Weinidogion Cymru, ar gyfer mynegi cwynion wrth Weinidogion Cymru.

(7) Rhaid i'r weithdrefn gwynion gynnwys darpariaeth ar gyfer datrys cwynion yn lleol yn gynnar, pan fo'n briodol.

(8) Pan fo'r weithdrefn gwynion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystyriaeth ffurfiol, rhaid i'r ddarpariaeth honno gael ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(9) Ni roddir cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (8) oni fydd y weithdrefn gwynion yn darparu yr ymgymerir â'r ystyriaeth ffurfiol gan berson sy'n annibynnol o'r ddarpariaeth o ofal i blant perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 32 mewn grym ar 1.4.2011, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, Adran 32.